------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 27 Ionawr 2015**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda

(242)v4

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3 Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus: Cyflwyno'r Bil Llywodraeth Leol (Cymru) (60 munud)**

**4 Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol: Gwella argaeledd rhandiroedd a gerddi cymunedol (30 munud)**

**5 Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Adnewyddu'r Agenda Cynhwysiant Ariannol (30 munud)**

**6 Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Addysg Uwch (Cymru) (15 munud)**

**NDM5677 Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

Yn cymeradwyo Bil Addysg Uwch (Cymru).

**Dogfen Ategol**
[Bil Addysg Uwch (Cymru) - fel y'i diwygiwyd ar ôl Cyfnod 3](#)
[Memorandwm Esboniadol Diwygiedig](#)

**7 Dadl: Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2013-14 (60 munud)**
**NDM5672 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad blynyddol y Comisiynydd Pobl Hŷn ar gyfer 2013/14, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Ionawr 2015.

**Dogfen Ategol**
[Adroddiad blynyddol y Comisiynydd Pobl Hŷn ar gyfer 2013/14](#)

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r cynnydd yng nghyfran gwaith achos y Comisiynydd Pobl Hŷn sy'n ymwneud â gofal iechyd.

**Gwelliant 2 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith bod yr Adroddiad Effaith a Chyrhaeddiad yn nodi bod tri awdurdod lleol yn methu â chyrraedd eu hamserlenni statudol ar gyfer darparu grantiau cyfleusterau i'r anabl.

**Gwelliant 3 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu gwaith y Comisiynydd Pobl Hŷn mewn perthynas â datblygu'r Datganiad Hawliau Pobl Hŷn yng Nghymru.

**8 Dadl: Adroddiad Gweinidogion Cymru ar Gydraddoldeb 2014 (60 munud)**
**NDM5674 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad Gweinidogion Cymru ar Gydraddoldeb 2014.

Cewch weld copi o'r adroddiad drwy ddilyn y linc a ganlyn:

[http://wales.gov.uk/topics/people-and-communities/equality-diversity/?skip=1&lang=cy](http://wales.gov.uk/topics/people-and-communities/equality-diversity/?skip=1&lang=cy)

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt 1 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried materion trawsryweddol ehangach o fewn dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.

**Gwelliant 2 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno mesurau pellach i fynd i'r afael â bwlio homoffobig mewn ysgolion.

**Gwelliant 3 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod yr angen am weithio mewn partneriaeth yn well er mwyn mynd i'r afael â'r cynnydd yn y tensiynau rhwng cymunedau a gwella cydlyniant yn dilyn yr ymosodiadau brawychwyr ym Mharis.

**Gwelliant 4 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu ffigurau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Tachwedd 2014 yn dangos bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar ei lefel isaf erioed, ond yn cydnabod bod angen gwneud mwy.

**Gwelliant 5 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod dioddefwyr troseddau casineb yn gallu cael gafael ar wasanaethau cymorth cynhwysfawr yn rhwydd.

**Gwelliant 6 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu mai ychydig o gynnydd sydd wedi'i wneud o ran cynyddu'r amrywiaeth o gyrff yng Nghymru sy'n gwneud penderfynaidau.

**Gwelliant 7 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod rhaid i amcanion cydraddoldeb hefyd gadarnhau'r hawl i gael gwasanaethau cyhoeddus drwy gyfrwng ieithoedd swyddogol Cymru.

**Gwelliant 8 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu na ellir sicrhau cydraddoldeb yng Nghymru oni bai bod cyfoeth wedi'i rannu'n deg ledled y DU.

**9 Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 28 Ionawr 2015

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 22 Ionawr 2015 i'w hateb ar 27 Ionawr 2015

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei flaenoriaethau strategol ar gyfer chwaraeon yn 2015? OAQ(4)2069(FM)

**2. Byron Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y rhagolygon ar gyfer economi Cymru? OAQ(4)2073(FM)

**3. Elin Jones (Ceredigion):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael parthed yswiriant llifogydd i fusnesau? OAQ(4)2066(FM)**W**

**4. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fuddsoddiad cyfalaf Llywodraeth Cymru yn sector twristiaeth Cymru? OAQ(4)2068(FM)

**5. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynglŷn ag adroddiad blynyddol diweddaraf Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru? OAQ(4)2077(FM)**W**

**6. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i helpu pobl yng nghefn gwlad Cymru i brynu eu cartrefi eu hunain? OAQ(4)2076(FM)

**7. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** Pa gyngor mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i ysgolion o ran dod o hyd i blant sy'n hunan-niweidio? OAQ(4)2062(FM)

**8. Keith Davies (Llanelli):** A wnaiff y Prif Weinidog roi diweddariad ar ddarpariaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg? OAQ(4)2080(FM)**W**

**9. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi'r syniad o adeiladu mwy o dai cyngor? OAQ(4)2079(FM)

**10. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau dull cyson ledled Cymru o ran dyrannu bathodynnau glas? OAQ(4)2064(FM)

**11. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynllunio ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus? OAQ(4)2065(FM)

**12. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn bodloni gofynion Adran 165(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 o ran integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol? OAQ(4)2072(FM)

**13. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wella'r ddarpariaeth gwasanaethau iechyd lleol yn Sir Benfro? OAQ(4)2063(FM)

**14. Aled Roberts (Gogledd Cymru):** Pa drafodaethau mae Llywodraeth Cymru wedi eu cynnal efo Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ynghylch pryderon o ran cynllunio'r gweithlu iechyd yn y gogledd? OAQ(4)2078(FM)**W**

**15. Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo cydlyniant cymunedol yn Nyffryn Clwyd? OAQ(4)2067(FM)

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar dudalen y Cyfarfod Llawn**

**Dydd Mawrth 3 Chwefror 2015 a dydd Mercher 4 Chwefror 2015**
**Dydd Mawrth 10 Chwefror 2015 a dydd Mercher 11 Chwefror 2015**
**Toriad: Dydd Llun 16 Chwefror 2015 – dydd Sul 22 Chwefror 2015**
**Dydd Mawrth 24 Chwefror 2015 a dydd Mercher 25 Chwefror 2015**

*************************************************************************

**Dydd Mawrth 3 Chwefror 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar y Papur Gwyn ar Lywodraeth Leol (45 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Ardrethi Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Gwella uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg: Y wybodaeth ddiweddaraf am gydweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau (30 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Arloesi Meddygol (15 munud)
- Dadl: Adolygiad o Addasiadau Byw'n Annibynnol (60 munud)

**Dydd Mercher 4 Chwefror 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i’r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth (45 munud)
- Cwestiynau i’r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (120 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Peter Black (Gorllewin De Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 10 Chwefror 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i’r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Cyflwyno'r Bil Rhentu Cartrefi (Cymru) (60 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Datganoli trethi yng Nghymru - Ymgynghoriad ar Dreth Trafodiad Tir (30 munud)
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod y ddwy eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân:
    - Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Ffioedd Cofrestru) (Cymru) 2015

    - Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Swyddogaethau Ychwanegol a Dirymu) (Cymru) 2015 (15 munud)
- Dadl: Egwyddorion Cyffredinol y Bil Cynllunio (Cymru) (60 munud)
- Penderfyniad ariannol mewn perthynas â'r Bil Cynllunio (Cymru) (5 munud)

**Dydd Mercher 11 Chwefror 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)
- Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 24 Chwefror 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Cyflwyno'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) (60 munud)

- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Lansio ymgynghoriad ar Dreth Tirlenwi Cymru (30 munud)
- Trefn Trafod Gwelliannau'r Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) (5 munud)
- Dadl ar Setliad yr Heddlu 2015-16 (60 munud)
- Dadl ar Adroddiad Blynyddol Estyn 2013-14 (60 munud)

**Dydd Mercher 25 Chwefror 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ei ymchwiliad i fynediad at dechnolegau meddygol yng Nghymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Andrew RT Davies (Canol De Cymru) (30 munud)